ATODLEN 1

CYNLLUN PENSIWN NEWYDD Y DIFFODDWYR TÂN (CYMRU)

# RHAN 11

## TÂL PENSIYNADWY, CYFRANIADAU PENSIWN A PHRYNU GWASANAETH YCHWANEGOL

### PENNOD 2

### PRYNU GWASANAETH YCHWANEGOL

**Hyd y cyfnod talu cyfraniadau cyfnodol a rhoi terfyn cyn pryd ar eu talu**

**7.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), pan fo person, o dan reol 6(2), wedi dewis talu cyfraniadau cyfnodol, maent yn daladwy o ben blwydd nesaf y person ac maent yn parhau i fod yn daladwy tan yr oedran ymddeol arferol.

(2) Bydd paragraff (1) yn peidio â bod yn gymwys i berson sy'n gadael cyflogaeth yr awdurdod cyn yr oedran ymddeol arferol—

(a) pan fo ganddo hawlogaeth i gael pensiwn o dan reol 3 o Ran 3 (pensiwn gohiriedig), ar ddiwrnod olaf ei wasanaeth,

(b) pan ddaw'n berson â hawlogaeth i gael ail bensiwn o dan reol 7 o'r Rhan honno (hawlogaeth i gael dau bensiwn), ar ddiwrnod olaf ei wasanaeth yn ail gyfnod ei gyflogaeth,

(c) ar y dyddiad y bydd y person yn peidio â chael ei gyflogi gan unrhyw awdurdod, neu

(ch) ar y dyddiad y daw unrhyw ddewisiad cyfraniadau yn weithredol.

(3) Pan fo is-baragraff i baragraff (2) yn gymwys, rhaid ymdrin â'r cyfnod o wasanaeth ychwanegol a brynwyd hyd at y dyddiad y cyfeirir ato yn yr is-baragraff hwnnw fel petai hwnnw oedd y cyfnod a ganfyddwyd yn unol â'r fformiwla:

$$A \times \frac{B}{C}$$

ac—

A yw nifer y trigeinfed rannau o wasanaeth ychwanegol y dewisodd y person eu prynu,

B yw'r cyfnod y mae cyfraniadau wedi'u gwneud ar ei gyfer, ac

C yw'r cyfnod y byddai cyfraniadau, oni bai bod cyflogaeth y person wedi peidio, wedi'u gwneud ar ei gyfer yn unol â'r dewisiad.

(4) Ymdrinnir â'r cyfnod o wasanaeth ychwanegol a gyfrifwyd yn unol â pharagraff (3)—

(a) pan fo'r person yn gymwys i gael pensiwn cyffredin (rheol 1 o Ran 3), fel rhan o'r gwasanaeth pensiynadwy a ddefnyddir i gyfrifo'r pensiwn cyffredin;

(b) pan fo'r person yn gymwys i gael pensiwn gohiriedig (rheol 3 o Ran 3), fel rhan o'r gwasanaeth pensiynadwy a ddefnyddir i gyfrifo'r pensiwn gohiriedig;

(c) pan fo'r person yn ymddeol yn gynnar a hwnnw'n ymddeoliad cynnar ar archiad yr aelod (rheol 5 o Ran 3), fel rhan o'r dyfarndal y cymhwysir y lleihad actiwaraidd iddo;

(ch) pan fo'r person yn ymddeol yn gynnar a hwnnw'n ymddeoliad cynnar ar archiad yr awdurdod (rheol 6 o Ran 3), fel rhan o wasanaeth pensiynadwy'r person;

(d) pan ddaw'r person, ar ôl iddo ddechrau ail gyfnod o gyflogaeth gyda'r un awdurdod, yn un a chanddo hawlogaeth i gael dau bensiwn (rheol 7 o Ran 3)—

(i) i'r graddau y gellir ei briodoli i gyfnod cyntaf ei gyflogaeth, fel rhan o'r gwasanaeth a ddefnyddir i gyfrifo'r pensiwn cyntaf; a

(ii) i'r graddau y gellir ei briodoli i ail gyfnod ei gyflogaeth, fel rhan o'r gwasanaeth a ddefnyddir i gyfrifo'r ail bensiwn.

(5) Nid yw cyfnod o wasanaeth ychwanegol a gyfrifir yn unol â pharagraff (3) i'w drin fel rhan o'r gwasanaeth pensiynadwy a ddefnyddir—

(a) i gyfrifo swm unrhyw bensiwn afiechyd haen uwch o dan reol 2 o Ran 3, neu

(b) i gyfrifo'r pensiwn afiechyd tybiannol a gyfrifir pan fo pensiwn goroeswr yn cael ei ddyfarnu yn sgil marwolaeth aelod-ddiffoddwr tân mewn swydd (rheol 2(1) o Ran 4).

(6) Mae gwasanaeth ychwanegol a brynir drwy dalu cyfraniadau cyfnodol yn cronni'n flynyddol yn unol â'r cyfraniadau a dalwyd.